

Meddwl y Tu Hwnt i Linell yr Eira *

Syniadau, Pobl a Llefydd ...

...tu hwnt i'r brif ffrwd

Ruth Essex a Chris Coppock



Glenn Davidson/Artstation: 'Trothwy –Arddangosfa o Ddrysau Ffrynt', maes parcio is-grofft, Cwrt Sant Siôr, Tredegar, Blaenau Gwent, 2016 ac yn parhau.

**Term mewnol yw 'Uwchlaw Llinell yr Eira' a ddefnyddir gan ddatblygwyr yng Nghymru i ddisgrifio terfynau ffisegol y farchnad ar gyfer codi tai preifat yn rhanbarth y de. Ar hyn o bryd, mae llinell yr eira fymryn uwchben Cwibrân, yng ngwaelod y cymoedd; y dybiaeth yw nad oes gwerth datblygu'n fasnachol y tu hwnt i'r llinell hon. Yn yr un modd, cymerir yn ganiataol fod gwerth (ac yn sgil hynny, statws) i lawer o gelf gyfoes mewn dinasoedd yn unig. Yn dilyn 4 blynedd o ymchwil ymarferol wedi gwreiddio mewn prosiectau lleol a gyflwynwyd trwy SPLI, rydym yn synied am SPLI fel model o ddemocratiaeth ddiwylliannol sy'n dathlu'r ymylon yn hytrach na'r canol ac yn esgor ar werthoedd newydd seiliedig ar bobl a nodweddion arbennig llefydd.*



Celf gyhoeddus Penygraig gan yr artist Rabab Ghazoul. Ffotograff: Dan Green

Mae symud ymlaen yn golygu diwedd y byd (celf) cyfarwydd ...

Cred awduron yr adroddiad hwn fod Syniadau:Pobl:Llefydd (SPLI) Cyngor Celfyddydau Cymru yn gam cadarnhaol ar y daith hon.

“Nod cyffredinol Syniadau: Pobl: Llefydd fu gwreiddio’r celfyddydau mewn ffordd wirioneddol ac ystyrlon mewn nifer o brosiectau adfywio dychmygus, uchelgeisiol ac arloesol.”

Dyna’r disgrifiad byr o’r fenter ‘celf yn y maes cyhoeddus’ hynod uchelgeisiol hon ac, mewn termau cymharol, blaengar a sefydlwyd yn 2015. Mae’r rhaglen drawsnewidiol ond byrhoedlog hon wedi ail-lunio (a dymchwel) egwyddorion yr hyn a olygir wrth ddod â chelf i gyd-destunau adfywio cymunedol; ac y mae’r dyfyniad perthnasol gan Tracey Cooke isod yn dystiolaeth i lwyddiant SPLI i wreiddio ei werthoedd yng nghalon y broses o adfywio cymunedol.

“Yr hyn a ddysgais yn broffesiynol yw bod celfyddyd yn fwy na ffurf weledol fel darlun neu gerflun. O ganlyniad i ‘Brosiect Trebanog’, rwyf yn deall bellach fod i gelf fwy o ddyfnder, a’i fod yn cynnwys amrywiol ganghennau o greadigrwydd. Mae a wnelo peth o symlrwydd y prosiect hwn ag eistedd ynghyd dros baned o de, neu fwyta gyda’n gilydd. Fe ddysgais nad mater o ymgynghori ffurfiol yn unig mohono; mae’n agwedd fwy meddal. Mater o wrando a thrin pobl mewn ffordd wahanol, dod i ddeall beth maen nhw’n dda am wneud. Dod i ddarganfod eu stori a’r hyn y gallant gyfrannu i’w cymuned. Cafodd y ffordd newydd hon o feddwl effaith ar fy nhîm a gweledigaeth Trivallis at y dyfodol. Mae gen i wedd wahanol nawr pan fydd pobl yn sôn am ymgysylltu.”

Tracey Cooke, Rheolwraig Adfywio, Tai Cymunedol Trivallis (rhan o brosiect SPLI It’s Art But it’s Not)

Dyma ni- Syniadau: Pobl:Llefydd

Mynd ati gyda'n gilydd i drin y diffyg dychymyg...

Deilliodd SPLI o Gyngor Celfyddydau Cymru oherwydd iddynt ganfod yr angen i wneud pethau'n wahanol. Wrth graidd hyn yr oedd awydd i fynd i'r afael a'r diffyg dychymyg ar adeg pan fo gwir angen syniadau newydd yn y cyd-destun datblygu cymunedol a phan fo gofod dychmygus i arbrofi ac ymholi yn ei wir ystyr yn dod yn brinnach fyth mewn sector celfyddydau sy'n cadw'i ddwylo'n rhy lân ac yn osgoi ar bob cyfrif ymdrin â phroblemau strwythurol tymor-hir cymdeithas.

Cyllidodd CCC a chefnogi ffyrdd newydd o weithio seiliedig ar gydweithredu ar draws sectorau gyda chymunedau, partneriaid o'r sector statudol a'r trydydd sector - gydag artistiaid, penseiri ac asiantwyr a chynhyrchwyr creadigol wrth galon y broses hon. Yn y bôn, yr hyn a wnaed oedd ehangu ac ymestyn cwmphas a chyfrwng celfyddyd mewn cymdeithas trwy 7 prosiect seiliedig mewn cyd-destunau cymunedol daearyddol a chymdeithasol wahanol ledled Cymru. Ceisiodd y rhaglen symud ymaith oddi wrth y patrwm o gyfethol a throï'r celfyddydau yn offeryn a fyddai'n arwain at (a) agenda a rhaglenni adfywio y penderfynwyd arnynt eisoes a (b) peidio â gweithredu fel catalydd bwriadol neu ddiymwybod i ddieithrio cymunedau oddi wrth eu gwreiddiau.

Trwy ddwyn ynghyd fudiadau ac unigolion o wahanol sectorau, creodd ofod lle gallai cynrychiolwyr weithio'n agos i'r un perwyl, gan herio'r sawl sy'n gweithio yn sector y celfyddydau a'r rhai sy'n ymwneud ag adfywio a thai yn gyffredinol i ddeall a gwneud pethau'n wahanol.

Dychmygu realaeth wahanol...

Yn anad dim, nod SPLI oedd gwneud celfyddyd a chreadigrwydd yn fwy canolog i'r modd yr ydym yn synied am ac yn dychmygu'r dyfodol, ystyried posibilïadau ehangach, a chwarae â gwahanol fathau o realaeth, fel a ganlyn...

...cefnogi a galluogi cymunedau i fwrw ati a chael llais mwy effeithiol ac ymdeimlad o fod yn rhan.

... creu prosesau a gweithiau celf lle gallai cymunedau, artistiaid a sefydliadau gydweithio'n effeithiol a pheri newid cadarnhaol. Y bwriad oedd ceisio ail-lunio a chael ymdeimlad o'r hyn mae pobl yn feddwl am ymgynghori, ymwneud a chydweithio, a'i wneud yn real, iddatblygu gwell ymdeimlad ar y cyd o bwrpas ac o le.

...creu'r lle (a'r calonnau a'r meddyliau) ar gyfer meddwl yn feirniadol a chreadigol - i herio rhagdybiaethau, polisiau ac arferion cyrff sy'n ymwneud â datblygu ac adfywio lleol ... ac ar yr un pryd, herio credoau, gwybodaeth ac arferion artistiaid a mudiadau'r celfyddydau ... er mwyn trio'n llaw ar ffyrdd newydd neu wahanol o wneud pethau.

O ganlyniad, ehangwyd cryn dipyn ar y syniad o'r hyn allai fod yn bosib. I fod yn glir, nid mater o ymgysylltu a grymuso yn unig oedd SPLI. Yr oedd yn fater o newid y ffordd mae busnes yn cael ei gyflawni. Oherwydd bod CCC yn rhoi adnoddau i'r prosiect, medrodd pobl fod yn ddigon annibynnol a dewr i weithredu fel hyn.

Anogodd SPLI edrych i mewn i ddulliau cydweithredol a chynhwysol o weithio a threfnu - i gryfhau syniadau a gweithredoedd 'ar y cyd', herio hierarchaeth sefydledig ac ail-gydbwyso grym ... ac ar yr un pryd, gynnal egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol ... yn ei hanfod, gwneud i ffwrdd â'r hen rwystrau a gormes y cyfarwyddiadau a roddir i ymgynghorwyr proffesiynol, ac yn lle'r duedd o gael prosesau 'cynllun-meistr' i adfywio o'r brig i lawr, cynnal deialog fwy hyblyg, emosiynol ymatebol a rhyngweithiol gyda'r cymunedau dan sylw ac er eu mwyn.

Mae'r pwyslais cryf ar weithio ynghyd ar draws sectorau sifil sydd i raddau helaeth mewn silos ar wahân yn cydnabod y croesffyrdd yr ydym wedi eu cyrraedd, lle gwelwyd bod meddylfryd gwleidyddol a sefydliadol confensiynol - fel yr amlygwyd yn y pegynnu dros BREXIT- fwy neu lai wedi methu a datblygu cymunedau. Yn y celfyddydau, a hebddynt, allwn ni ddim dal ati fel o'r blaen; mae arnom angen patrymau newydd, syniadau newyddaffurfiau newydd o gyrraedd consensws a pherchenogaeth ddiwylliannol, yn enwedig ar lawr gwlad. Dyma ni felly - Syniadau: Pobl: Llefydd.

Y Cefndir Presennol

"Mae pobl yn dioddef. Mae pobl yn marw. Mae ecosystemau cyfan yn dymchwel. Yr ydym ar drothwy difodiant, a'r cyfan y gallwch chi sôn amdano yw arian a chwedlau tylwyth teg am dwf economaidd diderfyn. Sut meiddiwch chi?"

Greta Thunberg yn uwch-gynhadledd Gweithredu ar Hinsawdd y CU, Efrog Newydd 23/09/19

Er i ni ddilyn y model twf economaidd ers degawdau, dal i ehangu y mae anghydraddoldeb, mae tloidi yn ei wahanol ffyrdd yn bodoli o hyd a llygredd amgylcheddol wedi cyrraedd pwynt argyfwng. O'r diwedd, mae cyflwr o argyfwng hinsawdd dybryd yn cael ei gydnabod yn eang. Yn y cyfamser, yr ydym wedi ein cloi o hyd i system seiliedig ar dwf economaidd parhaol, ac y mae gwerthoedd economaidd yn parhau i dra-arglwyddiaethu dros werthoedd eraill.

Waeth beth fu'r heriau i fodolau o'r-brig-i-lawr ac adfywio economaidd ers y 1960au, mae methodoleg adfywio uniongred wedi parhau'n slafaid i wasanaethu model o dwf economaidd parhaol a sbardunwyd yn bennaf gan nodau economaidd. Golygodd hyn fireinio parhaus ar y system gymdeithasol-economaidd, ond heb ddelio â chyfiawnder cymdeithasol nag achosion creiddiol yr holl brif broblemau cymdeithasol. Felly, cyfyngwyd syniadau am adfywio i gynnal y system gymdeithasol-economaidd bresennol ar y naill law, ac ar y llall, ceisio ymdrin â'r gwrth-ddweud a'r problemau sy'n rhan annatod o'r model cyllidol un-dimensiwn hwn ac a grëwyd ganddo.

Mae'r sawl sydd mewn safleoedd o reoli a dylanwad wedi dal ati i ddatblygu strategaethau sy'n cynnal ac amddiffyn y status quo — heb roi fawr ddim lle i ddatrys problemau mewn dull mwy dychmygus ac mewn gwirionedd, llwyddo i ddileu'r gred fod ffyrdd eraill o weithio yn bosib.

Gŵyl Troublemakers, Stryd Fawr Abertawe. Llun Math Roberts



Ar waethaf degawdau o adfywio a buddsoddi fu'n canolbwyntio ar ardaloedd, methodd y meddylfryd confensiynol ag ymdrin yn ddigonol ag anghydraddoldeb ac anfodlonrwydd daearyddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae damcaniaeth economaidd difaru i lawr wedi methu'n druenus â digwydd mewn gwirionedd.

"Mae Cymru yn enghraifft glasurol o gyn lleied sy'n difaru i lawr o fuddsoddi caled mewn seilwaith; gwelwom fuddsoddiad enfawr na chafodd fawr ddim effaith o ran newid bywydau pobl ac adeiladu gwytnwch."

Barbara Castle, Ymgyrchydd Adfywio Cymunedol

O'r herwydd, casgliad y model SPLI oedd na ellid yn fuddiol ystyried twf economaidd fel sbardun allweddol mewn adfywio sy'n "canoli ar y dyfodol". Y prif reswm am hyn yw bod yn rhaid iddo yn ei hanfod weithredu deinameg 'o'r brig i lawr' yn hytrach nag 'o'r bôn i'r brig', lle mae ymwneud â'r gymuned yn arwynebol ac wedi ei lapio yn rhethreg 'ymgyngori'.

Mae cyfranogi heb ymwneud sifig yn rhwym o drechu ei hun...

Tra bod cyflwyno SPLI yn deall fod diffyg cyfranogi cymunedol yn niweidiol iawn ac yn wrthgynhyrchiol pan nad yw'n bresennol yn y broses 'adfywio', daeth i'r casgliad hefyd y gall cyfranogi heb ymwneud a gweithredu sifig sylweddol drechu'r nod a gwyrô'r sawl sy'n cymryd rhan oddi wrth y llwybr. O'r herwydd, seiliwyd SPLI ar yr egwyddor y dylai cyfranogi gweithredol - ynghyd â galluogi trawsnewid cymunedol o ran dyheadau, ennyn hyder, hunanddatblygiad a pherchenogaeth greadigol - fod yn rhan hanfodol ac annatod o'r contract (cymdeithasol) SPLI.



Parc poced ar Stryd Fawr Abertawe a grewyd yn ystod y prosiect Gorsaf i'r Môr

Bu SPLI o'r cychwyn cyntaf yn benderfynol o osgoi'r model adfywio ffisegol am un a sbardunwyd gan adfywio cymdeithasol, lle'r ystyriwyd bod gan asedau dynol anniriaethol i raddau helaeth a llai mesuradwy — megis y cyfoeth sydd mewn pobl, o sgiliau unigol i ymddiriedaeth gymunedol — fwy o werth a phwrpas a lle nad oedd tystiolaeth o 'gynnydd' wedi'i ddiffinio gan fetrigau trawsnewid ffisegol, boed o ran gweithiau celf cyhoeddus neu nodweddion amgylcheddol yn y tirwedd trefol. Fel hyn, anogwyd pob un o'r prosiectau SPLI ledled Cymru i roi pwyslais mawr ar y berthynas symbiotig rhwng yr amgylchedd cymdeithasol, naturiol ac adeiledig, ac ystyried yr amodau a allai beryglu'r cysylltedd hwn.

Mae corff helaeth o dystiolaeth fod dylunio sy'n canoli ar y dynol yn meithrin ac yn sylfaen i les pobl. Rhoddwyd llais clir i fanteision hyn ers y 1960au gan feddylwyr a dylunwyr o bwys megis Jane Jacobs a Jan Gehl (gweler, er enghraifft, *The Death and Life of Great American Cities & Cities for People*), ond ni roddwyd llawer o sylw i'w gwersi proffwydol mewn llawer o adfywio cyfoes, yng Nghymru yn enwedig. Trwy amrywiol ffyrdd creadigol, ceisiodd SPLI wneud iawn am y diffyg hwn.

Parasiwtio a chategoreiddio...

O ganlyniad, mae cymuned, gweledigaeth a dychymyg wedi eu tynnu allan o'r broses adfywio brif-ffrwd... dinistriwyd hyn ymhellach gan fiwrocratiaeth or-gymhleth, gweithdrefnau contractaidd ac ymarferion caffael dryslyd nad oeddent yn gwneud fawr ddim i gefnogi economïau nac arbenigedd lleol. A dweud y gwir, yn aml iawn, mae ymgyngorwyr proffesiynol yn cael eu parasiwtio i mewn i lefydd na wyddant fawr ddim amdanynt ac nad ydynt yn golygu llawer iddynt - nac yn teimlo unrhyw gyfrifoldeb moesol na moesegol tuag atynt - cyn diflannu gydag elw'r contract. O'r herwydd, mae llawer o brosiectau oedd â bwriadau da a lle buddsoddwyd llawer o arian, wedi eu gweithredu'n gyffredinol ac yn ansensitif, heb fawr ddim ystyriaeth i nodweddion penodol pobl a llefydd. Dewisodd SPLI weithio i rythm a gwerthoedd gwahanol.

Mae adfywio prif-ffrwd wedi tueddu i ddrysu a chuddio achosion sylfaenol anghydraddoldeb ac wedi camddehongli'r problemau trwy ddefnyddio terminoleg megis "llefydd diffygiol", "trefi a adawyd ar ôl", "y rhai a ddatgysylltwyd", "anodd eu cyrraedd" a "diwylliannol difreintiedig", fel petai'r cymunedau a dargedwyd heb fywyd na gobaith. Mae'r derminoleg hon hefyd wedi treiddio i sector y celfyddydau hefyd. Mae iaith o'r fath yn dangos sut y mae pobl freintiedig yn cadarnhau eu rhagfarn eu hunain a sut y mae'r rhagfarn hwn yn cael ei normaleiddio, ac y mae'n amlwg mewn polisiau ac arferion.

Gall celfyddyd sy'n cael ei ledaenu yn y cyd-destun hwn, heb holi'r modd sarhaus y mae rhai cymunedau'n cael eu nodweddu a'u categoreiddio, yn aml fod yn ymyriad arwynebol a thocenistaidd, sy'n rhoi geiriau teg yn unig yn wyneb y problemau sylfaenol sy'n bla ar rymuso cymunedol. Ceisiodd SPLI wrthdroi'r ieithwedd hon a'i chynodiadau negyddol.

Mae'r tir yn wleidyddol...

Daeth y Celfyddydau Cyfranogol yn gydran (neu yn 'erfyn') sefydledig mewn adfywio ers sawl degawd yn y DU, ac y mae llawer o'i symbyliad yn ddyledus i olion y mudiad Celf Gymunedol sydd hyd yma wedi bod yn wleidyddol ei naws ac yn rhoi pwyslais sylfaenol ar y broses - ac ymwneud â phobl - yn hytrach na chynhyrchu celfyddyd a'i nodweddion cynhenid.

O'r herwydd, nid yw Celfyddydau Cyfranogol yn gweld fawr o rinwedd mewn modelau celfyddyd prif-ffrwd, a gwêl brif rôl yr artist felcyfryngwr goddefol sy'n ychwanegu elfen o ddyfnder creadigol, cysylltedd a mwynhad difyr i ymgynghori cymunedol a'r broses o adfywio cymunedol.

Dim o'i le gyda hyn. Ond mae'n bwysig deall, er mor glodwiw yw'r teimlad hwn, fod y tir yn ddiarmheuol yn wleidyddol ac yn destun dadl. Yn ei draethawd, 'Ailfeddwl rôl artistiaid mewn cyd-destunau adfywio trefol', mae **Stephen Prichard** yn dyfalu bod...

"Y swyddogaethau cyd-gysylltiedig a chwaraeir gan gelfyddyd mewn byd sy'n gynyddol anwastad, trawswladol ac wedi globaleiddio yn dod dan ddylanwad y rolau cymhleth sydd gan gelfyddyd mewn adfywio, troi cymdeithasau'n fwyrachaid ac (yr hyn mae'n ddisgrifio fel) 'celf-olchi'. Mae'r cymhlethodau hyn yn aml yn cael eu cuddio y tu ôl i ddyfeisiadau naratif syml.... ac yn cael eu defnyddio fel ffyrdd o guddio'r haenau o fuddiannau sefydledig sy'n ymgasglu o gwmpas prosiectau celf sy'n ymwneud ag 'adfywio trefol'."

Yn anorfod, mae'r pwyslais hwn ar adfywio trefol wedi arwain at obsesiwn â mesur celfyddyd a chreadigrwydd mewn termau swyddogaethol ac economaidd yn unig; gyda chelfyddyd yn dod yn gyfrwng anffodus yn y ras i fesur a gosod llefydd yn erbyn ei gilydd - a bwydo'r obsesiwn â 'Gosod mewn lle' cystadleuol, ymwybyddiaeth brand honedig a marchnata.

Llesiant y Dyfodol — gwireddu'r egwyddorion ar lawr gwlad ...

Mae SPLI ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o fentrau, polisiau ac arferion presennol a rhai sy'n ymddangos, gan geisio newid meddylfryd, cael gweledigaeth newydd ac adeiladu modelau newydd ar gyfer arfer yn y dyfodol. Mae Cymru'n symud ymaith yn raddol oddi wrth fesur GDP a GVA tuag at y prif werth o 'llesiant'. Yn hyn o beth, mae SPLI yn asio'n ddiwrniad â gwerthoedd ac ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, polisi allweddol Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar sector cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y llywodraeth, i ystyried cynaliadwyedd yn ei holl weithredoedd. Mae hyn wedi newid holl ganolbwynt meddylfryd gwleidyddol ynghylch egwyddorion dinasyddiaeth iach a ffyniannus.

Mewn llawer ffordd, mae SPLI yn dynwared y nod o “wneud i’r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio’n well gyda phobl a chymunedau a’i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd agwedd fwy cydlynus” gan geisio gwireddu’r nodau strategol hyn ar lawr gwlad.

“Mae menter SPLI yn enghraifft arloesol o sefydliadau cyhoeddus a chymunedau yn gweithio ynghyd fel cydweithwyr i wireddu cysyniadau ac uchelgais polisi Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae annog deialog agored a chreadigol mewn sefydliadau cyhoeddus a chymunedau a rhyngddynt yn hanfodol er mwyn llunio diwylliant cydweithredol lle gallwn symud o ddifrif ymaith oddi wrth system seiliedig ar dwf i un seiliedig ar gynaliadwyedd a llesiant. Gall artistiaid fod yn hwyluswyr effeithiol y broses hon ac, yn fwy pwysig, ein helpu i feddwl gyda dychymyg am y dyfodol. Mae arnom angen prosiectau fel hyn i wneud y Ddeddf yn realiti ar lawr gwlad”.

Jane Davidson, cyn-Weinidog Amgylchedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a phensaer gwreiddiol y Ddeddf.

Felly beth yw rhai o’r themâu allweddol a ddatgelwyd gan SPLI yn ystod ei hanes byr sy’n harneisio ysbryd y Ddeddf ac sy’n gwneud cyfeiriad hanfodol i helpu’r broses ddysgu a gwaddol?

Rhai Themâu Allweddol

1. Y broses Gyllido a rôl y cyllidwr — blaenoriaethau ac arferion

Buddsoddi yn ansawdd a gwynwch cydweithredu...

O’r cychwyn, dealodd CCC fod natur y fframwaith cydweithredol ar gyfer pob prosiect creadigol SPLI yn hollbwysig. Yr oedd y prosiectau a ddewiswyd yn rhai oedd yn anadlu anadl einioes i bartneriaethau neu gonsortia nad oedd wedi eu nodi o’r blaen neu rhwng mudiadau tra gwahanol i’r rhai yr oeddent wedi arfer gweithio gyda hwy. Felly, er enghraifft, gallai cymdeithas tai gael ei phartneru gydag ymddiriedolaeth hamdden awdurdod lleol a grŵp celfyddydau lleol; yn yr un modd, gallai datblygwr masnachol gael ei bartneru â landlord cymdeithasol a grŵp o artistiaid; neu gellid dwyn adran adfywio awdurdod lleol (yn hytrach na thimau datblygu celfyddydau confensiynol mewn awdurdod lleol) ynghyd â chwmni theatr.

Lluniau soddoweithdai dysgu a datblygu traws-raglen ysbeidiol; croesawyd hyn gan yr Orsaf i’r Môr ar Stryd Fawr Abertawe. Cyfuniad nodweddiadol o weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. Ffotograffau: Claudine Conway



Fel hyn, bydd modd gwneud cysylltiadau newydd arloesol a datblygu dysgu cilyddol; a chydabod ar yr un pryd fod diffyg cytgord diwylliannol rhwng partneriaid gwahanol iawn - gyda'u hanghenion a'u diwylliant sefydliadol a strategol penodol eu hunain - o raid yn arwain at lefelau anorfod o rwystredigaeth a gwrthdaro.

Gan gydnabod y byddai ansawdd a gwytnwch y berthynas rhwng partneriaid yn allweddol i gynaliadwyedd y prosiectau, buddsoddodd CCC yn drwm mewn hwyluso cyfarfodydd partneriaeth a bod yn frocer amyneddgar iddynt yn aml. Felly yr oedd yr ethos cyffredinol o safbwynt y cyllidwr yn un graddol ac yn canoli yn bennaf ar y broses, gan gydnabod y byddai angen buddsoddi cyllid ac amser i ennyn hyder rhwng y partion - a oedd cyn hyn wedi pasio heb gyffwrdd ei gilydd - ac y byddai'n atal datganiadau pwysfawr a digwyddiadau allweddol wrth gyflwyno'r prosiect.

Yr oedd CCC yn glir hefyd na ddylid ymyrryd a chyfnod datblygu'r prosiect/consortia. Yn erbyn y cefndir hwn y rhagwelid yn wastad y byddai prosiectau yn cael eu cefnogi gan gyllid am 3-4 blynedd, a ystyrir, yng nghyd-destun y celfyddydau, yn dymor cymharol hir. Yr oedd i sicrwydd a roes hyn o ran amser yn rhoi i bobl y pellter hanfodol i ddod i adnabod ei gilydd ac i esblygu prosiectau oedd yn cynnwys y cyd-destun lleol gan deall gwybodaeth a safbwyntiau pawb oedd yn rhan o'r peth; ac a oedd, yn anad dim, yn rhoi gofod i ddeialog er mwyn wynebu ac ymdrin â gwerthoedd a dulliau o weithredu oedd weithiau yn gwrthdaro. Tra bod rhai consortia yn cael mwy o drafferth nag eraill, yn sicr fe ddaeth meithrin a rhoi blaenoriaeth i adeiladu perthynas yn fan cychwyn i symud tuag at ddiwylliant mwy cydweithredol a maes chwarae gwastad.



Gweithdy agored Darganfod Maendy - Rôl y celfyddydau i gydnabod lle

Gwrthwynebu deilliannau a rhesymeg datrys problemau...

Un o'r nodweddion gwydn oedd yn diffinio SPLI oedd dewrder y cyllidwyr i anghofio'r holl ffÿs am 'ddeilliannau' a rhesymeg datrys problemau, yn enwedig gyda phroffwydi gwae a beirniaid yn crefu am ganlyniadau diriaethol a chonfensiynol. Credwn hefyd mai dyma waddol fydd yn parhau. Rhaid i fwy o gyrff cyllido fod yn llai ofnus am y galw am bethau ffisegol, yn enwedig os ydym o ddifrif am ymdrin ag amgylcheddau cymdeithasol lle mae amddifadedd economaidd yn amlwg, a sylfeini cydlynu cymdeithasol yn fregus, gyda chymunedau yn brwydro yn erbyn fersiynau negyddol ohonynt eu hunain.

“Ychydig neu ddim gweithdrefnau fu ar gael i bennu problem a’i datrys. Nid i ateb angen cymdeithasol o ddiagnosis rhagnodol. Nid i ‘adfywio’ diwylliant ar ran y sawl y tybir sydd angen ail-ddiwyllio. Yn hytrach, mae prosiectau SPLI wedi cynhyrchu gwerth a gwerthoedd o wneud pobl eu hunain yn effeithiol ac o ddeialog cynhwysol a diwylliant cydweithredol. I fod yn glir, mae menter SPLI yn golygu dyfeisio polisi o alluogi; o safbwynt Cyngor Celfyddydau Cymru, bu’n fenter sefydliadol a fwriadwyd i ‘ganiatáu’ deilliannau anrhagweladwy a gohirio unrhyw farn am lwyddiant cymharol, sy’n golygu mwy o le i wir rannu perchenogaeth.”

Paul Haywood, Deon Rhaglenni Academaidd ym Mhrifysgol y Celfyddydau: Central Saint Martins ac Athro Ymweliadol Ymwneud Creadigol Cymunedol ym Mhrifysgol Salford. Ymgynghorydd allanol i SPLI

O ganlyniad, roedd mwy o ystyr a gwir bwrpas i ymwneud a chydweithredu y tu hwnt i gyfyngiadau metrigau cyllido traddodiadol. Fel hyn, daeth SPLI yn egin-broses, gyda’r rhaglen yn datblygu’n organig ac yn ymateb i newidiadau – a heriau – gwirionedd ar lawr gwlad. Trafodwyd prosiectau yn gyson ar lefel leol, rhwng mudiadau sy’n bartneriaid a rhwng tîm y prosiect team a’r cyllidwr; gan ddatgelu ffordd o weithio oedd yn ymgorffori ‘methiant’ i mewn i’r broses ddysgu.

Heb ddatgan yr amlwg, yr oedd diffyg rhaglen a deilliannau a bennwyd ymlaen llaw yn rhoi canfas gwag i bobl — a’r rhyddid i gael effaith nad oedd yn dibynnu ar unrhyw broses allanol. Yr oedd hyn yn gadael lle ar gyfer gweithio ailadroddol ac i syniadau anfwriadol ffurfio... trwy hynny barchu a dilyn y cysyniad fod “Diwylliant yn ein gwneud ni wrth i ni ei wneud”. Neu mewn geiriau eraill:

“Gallwch gynllunio digwyddiadau, ond os ânt yn ôl y cynllun, nid digwyddiadau mohonynt”

John Berger

Gyda’r broses o ymgeisio heb fod yn canolbwyntio ar osod ac asesu deilliannau a gweithgareddau a ragwelwyd, byddai ceisiadau yn cael eu hasesu’n sylweddol ar ffactorau megis...

...ansawdd a photensial consortia o fudiadau sydd wedi ymrwymo i’r prosiect.

... lefel y natur agored a ddangoswyd gan bartneriaid i addasu, dysgu a newid trwy’r profiad i fanteisio i’r eithaf ar natur unigryw’r partneriaethau a’r hyn all fod yn bosib.

...y gwerthoedd, amcanion, dibenion ac agweddau sylfaenol a amlinellwyd.

Rhaid cydnabod ei bod yn fwy anodd asesu ffactorau fel ‘ymrwymiad’, ‘ansawdd perthynas’, ‘natur agored’ etc., yn hytrach na chynllun gweithredu parod a chyllidebau manwl, ac y mae’r agwedd fentrus hon yn llam o ffydd ynddo’i hun.

Cyllido sefydliadau heb fod yn seiliedig ar y celfyddydau...

Agwedd allweddol arall o’r gofyniad am gyllido oedd bod cymorth grant wedi ei fwriadu i eistedd yng nghoffrau mudiad heb fod yn ymwneud â’r celfyddydau, ac yn un achos, fe’i dyfarnwyd i grŵp cymuned gyda chynrychiolaeth o rwydwaith eang o fudiadau (Maendy Unlimited) yn hytrach na chonsortiw m o sefydliadau a mudiadau.

Yr oedd hyn yn symbolaidd (h.y., cyllid yn miniogi meddyliau a dod â mudiad heb fod yn ymwneud â’r celfyddydau yn ganolog at y bwrdd, fel petae) ac mewn rhai achosion yn lleol, fwy neu lai - lle gallai mudiadau mwy gyda’r gallu i reoli lefel y cyllid a roddwyd wneud y dasg hon ar ran mudiadau llai. Er bod hyn yn caniatáu i arian gael ei ddal a’i ddosbarthu yn lleol yn ôl anghenion penodol pob prosiect, nid oedd hyn yn rhydd o broblemau i rai prosiectau. Yr oedd canoli cyllid yn creu anghydbwysedd grym rhwng deiliad yr arian ac aelodau eraill y consortiw m, gan roi, efallai, ormod o arfau rheolaeth i ddeiliad y grant trwy neilltuo arian yn ddethol. O edrych yn ôl, yn ôl **Steve Phillips**, gweithiwr proffesiynol mewn tai ac adfywio (fu’n ymwneud yn ganolog a 2 o brosiectau SPLI) *“...dyllid neilltuo cyllid i annog annibyniaeth a chaniatáu’r math o her rymus sydd yn gorfod digwydd os am gael gwelliannau systemaidd dwfn a gwirioneddol.”* Hefyd, nid oedd oedi gyda phrosiectau a thalu oherwydd rheolau caffael mudiadau mawr heb fod yn ymwneud â’r celfyddydau yn cefnogi’r ffordd ymatebol, hyblyg o weithio oedd yn bachu ar gyfle fyddai’n cael ei annog trwy SPLI.



cc-by-sa/2.0 - Salt marsh in the former... by Simon Mortimer - geograph.org.uk/p...

Creu mwy o 'ymyl'....

I ddefnyddio delwedd ecolegol sy'n tynnu ar y fioamrywiaeth sy'n digwydd ar ffiniau cynefinoedd, nod SPLI oedd manteisio ar 'effaith yr ymyl' a'i ehangu - lle mae gwahanol sectorau, disgyblaethau, diwylliannau, etc., yn cwrdd ac yn asio. Po fwyaf o ymyl a grëir, y mwyaf o fioamrywiaeth a gewch. Gwnaed y mwyaf o'r syniadau ecolegol hyn am gyfoeth yr ardal ymylol gan artistiaid megis Nils Norman, un o'r grŵp o 'arbenigwyr' allanol a wahoddwyd i rannu ei syniadau a'i arfer gyda phrosiectau i gynhyrchu trafodaeth ar gychwyn y broses SPLI.

Yn yr un modd, ar hyd taith SPLI, cynhaliodd y gwahanol brosiectau gyfres o weithdai dysgu a datblygu ar draws y rhaglen - pob un wedi'i drefnu gan CCC a'r prosiect oedd yn cynnal. Yr oedd y rhain yn rhoi pwyslais ar ddysgu gan gyfoedion a chreu perthynas ar draws y prosiectau i adeiladu cysylltiadau a 'chymuned' fras o SPLI, a allai fod yn 'fudiad' cenedlaethol. Gan eu bod yn adlewyrchu natur amlsector y prosiectau lleol, roedd y digwyddiadau hyn yn dwyn ynghyd amrywiaeth wahanol iawn o ymarferwyr, artistiaid ac ymgyrchwyr cymunedol.

Un o amcanion y digwyddiadau hyn oedd ffurfio rhwydwaith cenedlaethol o gefnogaeth ac i greu fforwm genedlaethol i drafod a hyfforddi trwy weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. Ni ellir gor-bwysleisio gwerth na gwaddol y rhaglen hon o ddysgu wyneb-yn-wyneb gan gyfoedion. Galluogodd berthynas a dadleuon i ddatblygu dros amser. Y cysylltiadau hyn sy'n cefnogi pobl i ddatblygu, arloesi a bwrw ymlaen gyda syniadau yn ystod cyfnod y rhaglen a thu hwnt. Yn anffodus, mae'r fforymau hyn i raddau wedi chwalu ar ôl i raglen SPLI ddod i ben.

Hyrwyddo sgysiau gonest...

Cafwyd lefel o ymddiriedaeth a diwylliant o sgwrsio gonest trwy gydol y rhaglen rhwng y cyllidwr a'r prosiectau ac o fewn y rhwydwaith ehangach. Golygodd hyn y gellid cynnal deialog gynhyrchiol a beirniadol yn ddidwyll ar y cyfan. Yr oedd bod yn agored rhwng y partneriaid strategol a gweithredol yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen yn gyffredinol. Yr oedd hefyd yn allweddol er mwyn lliniaru ofnau am risg a methiant, a hyrwyddo dysgu ar bob cam o'r daith. Yn aml, arweiniodd hefyd at weithgareddau mwy effeithiol, gyda gwell naws ac ansawdd.

Yn hyn o beth, yr oedd penderfyniad Cyngor y Celfyddydau i ddwyn i mewn 'gyfaill beirniadol' ar ffurf rheolwr annibynnol i'r rhaglen yn un doeth. Daeth yr unigolyn hwn yn gyfrwng allweddol i'r broses gan dderbyn a delio â syniadau yn wrthrychol – heb ffafrio nac ofni – o du'r cyllidwr a'r prosiectau.

2. Adfywio y tu hwnt i Osod Lle: gweledigaeth newydd o'r dyfodol a syniadau am newid

Adeiladu diwylliant adfywiol ...

Mae modelau 'adfywio' prif-ffrwd wedi gweithredu'n draddodiadol yn ôl mantra 'enillion cyflym' ac atebion 'troi'r allwedd', yn enwedig yng nghyswllt cyd-destunau cymunedau economaidd ddifreintiedig. O'r cychwyn, ystyriodd SPLI y syniad o adfywio mewn termau gwahanol iawn. I gychwyn, mabwysiadodd yr egwyddor nad oes modd datrys llawer o'r problemau strwythurol yn ein cymunedau trwy raglenni celfyddydol sy'n digwydd fel rhywbeth ymylol, a bod cymryd arnom fod modd gwneud hynny yn wrth-gynhyrchiol a di-fudd. O'r herwydd, moeseg adfywio 'ara-deg' oedd gan SPLI, oedd wedi ei seilio ar ffurfio diwylliant adfywio oedd yn gosod cymunedau a pherthynas (rhwng yr holl randdeiliaid, trigolion, sefydliadau, cyllidwyr etc.) wrth galon y cyfnewid diwylliannol. Fodd bynnag mae gwirioneddau moel yr argyfwng hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn codi cwestiwn brys sut i asio adfywio ara-deg gyda'r newidiadau sydyn a phellgyrhaeddol sy'n gorfod digwydd dros y 5-10 mlynedd nesaf.

"Mewn ffordd bwerus, mae SPLI wedi galluogi arfer artistig i herio ystyr confensiynol diwylliant adfywio, pensaernïaeth a dylunio i ddylanwadu ar y modd mae gofod cymunedol a datblygu lleol yn cael eu cynllunio a'u rheoli. Adfywio cymdeithasol, h.y., y buddsoddiad mewn cyfalaf cymdeithasol, oedd y garreg sylfaen i SPLI fynd ati i greu'r sail ar gyfer adnabod ac adeiladu cymunedau lle gellid adnabod ac adeiladu newid dan arweiniad dinasyddion ac a oedd yn seiliedig ar le, gan greu cymunedau o bwrpas o'r newydd"

Paul Haywood



Gwelodd SPLI hefyd adfywio cymunedol y tu hwnt i'r model cyfranogol confensiynol — gan weithio ynghyd a chyda hwy, heb ragnodi natur unrhyw gyfranogi, fel sy'n digwydd yn rhy aml mewn arfer cyfredol Celfyddydau Cymunedol, a all fod yn oddefol gydag agwedd dadol i raddau helaeth. Yn bendant, nid oedd yn rhoi pwys ar niferoedd ac nid oedd nifer y sawl a gymerodd ran yn gymunedol yn nod ynddo'i hun nac yn fetrig gwerthuso. Yn hytrach, daeth cysyniad cyfranogi yn gyfystyr â'r broses o alluogi trawsnewid: cafwyd pwyslais ar ansawdd yr ymwneud a'r profiad, gan ganolbwyntio ar ddyfnder, nid nifer y bobl oedd yn cymryd rhan.

Prosiect Trebanog. Pobi bara yn gymunedol. Artist arweiniol a ffotograffau: Owen Griffiths



Buddsoddi yng ngwir arweinwyr a mudiadau'r gymuned...

Mae buddsoddi mewn pobl a mudiadau sy'n aros yn y cymunedau ymhell ar ôl i fenter artistig darfodedig ddod i ben yn hanfodol o ran gwaddol barhaol a helpu i wneud unrhyw newid ystyrion yn gynaliadwy. Mae profiad SPLI yn ategu'r ffaith fod mudiadau llawr gwlad parhaol a chynaliadwy fel rheol yn dibynnu ar nifer gymharol fechan o weithredwyr neu arweinwyr cymunedol, sy'n eu gwneud yn eu hanfod yn fregus. Rhaid cydnabod fod cymaint o bethau da mewn gwirionedd yn fater o ymrwymiad a sgiliau arweinyddiaeth unigryw ychydig iawn o bobl — arweinyddion/gweithredwyr cymunedol — yn gweithredu y tu allan i rôl broffesiynol. Ni ellir gorbwysleisio'r gwirionedd syml hwn (ond nid yw'n cael ei gydnabod yn aml).

Mae profiad SPLI wedi amlygu'r ffaith ei bod efallai yn fwy effeithiol cefnogi mudiadau cymunedol na chyllido sefydliadau mawr, oherwydd bod gan y mudiadau bychain arweinwyr ymroddedig a gefnogir gan arbenigedd/datblygwyr diwylliannol, yn ôl y galw ac ar gais.

Artistiaid fel hwyluswyr cydnabod lle ...

Yn erbyn y cefndir hwn, mae rheidrwydd ar artistiaid ac eraill sydd am gymryd rhan mewn 'arfer sy'n ymwneud yn gymdeithasol' i ymdoddi, er enghraifft, i ddiwylliant gweithredol lleol, symudiadau ac anghenion arfer ym maes tai, a'r sbardunau sy'n gyrru'r sector adfywio. Fel hyn, mae unrhyw fentrau a gynigir ar sail o wybodaeth am y cyd-destun a'r fframweithiau sefydliadol sydd yn nodweddu, diffinio, cyfyngu ac yn sail o wybodaeth i'r amgylchedd weithredol. Gyda'r wybodaeth ddyfnach hon, bydd y gallu i ymyrryd yn greadigol yn helpu i hwyluso 'adnabod lle' a'i wireddu, yn hytrach na chysyniad 'gosod lle'. Mae a wnelo hyn fwy yn aml â brandio lle na chynhwysiant cymdeithasol. Neu fel y dywed **Wendell Berry** yn *"The Art of the Commonplace": "Hyd nes y byddwn yn deall beth yw'r tir, rydyn yn wrthwynebus i bopeth y byddwn yn gyffwrdd"*.

E Gan adleisio'r teimlad hwn, mae SPLI yn rhoi blaenoriaeth, cyn i unrhyw fformiwlâu gael eu lleisio, i wrthweithio'r duedd i lefydd ddod yn llai tebyg iddynt eu hunain ac yn fwy generig, ac i dyfu llefydd sydd yn fynegiant o'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ynddynt. Nid gosod estheteg oddi uchod, ond darganfod a rhannu'r hyn sy'n ddilys ac sy'n adleisio gyda phobl; yr hyn y rhoddir gwerth arno a'r hyn y dylid ei werthfawrogi.



'Chwilio am y Canol' gan yr artist Janetka Platun lle gwisgodd pedair menyw fel pysgodwragedd traddodiadol Llangwm a dod i mewn i Hwlfordd ar wahanol bwyntiau a thrwy ofyn i'r cyhoedd am gyfarwyddyd i ganol y dref

ASTUDIAETH ACHOS I : Llwybrau newydd, Mass Observation a'r Nonsensws

An important strand of the 'Finding Maindee' project was New Paths. New Paths was both a regular open Haen bwysig o brosiect 'Finding Maendy' oedd Llwybrau Newydd. Yr oedd Llwybrau Newydd yn fforwm agored reolaidd neu 'labordy syniadau' i artistiaid ac aelodau'r gymuned i helpu i blannu ac esblygu syniadau a chronfa grantiau bychain i gefnogi datblygu a gwireddu'r syniadau a ddewiswyd gan banel lleol. Arweiniodd at sbarduno aelodau lleol y gymuned ac artistiaid, gan roi cryfder i rwydwaith leol gynyddol o weithredwyr cymuned creadigol.

Gan ddynewared ymchwilwyr taledig prosiect Mass Observation (1937-1950au) igofnodi bywyd beunyddiol yn y DU, trwy Llwybrau Newydd, datblygodd Maendy eu prosiect ymchwil lleol eu hunain wedi'i sbarduno gan artistiaid-ymchwilwyr - gan dyrchio'n ddwfn i hunaniaethau, gwerthoedd, amrywiaeth, emosiynau, profiadau, credoau ac ysbryd y lle. Yr oedd yr arbrawf hwn gyda "chelfyddyd fel ymchwil" yn dwyn i mewn yn greadigol y bobl sy'n byw yn y gymdogaeth. Un o brif bwyntiau'r arbrosion hyn oedd mynd yr ail filltir, gan gyflwyno celfyddyd ar stepen y drws.



Cychwynnodd 'Stuart Farnsworth-casglwr data', alter ego'r artist a'r preswylwr lleol Steve Jones, ar brosiect 'Nonsensws' a chynnal arolwg drws-i-ddrws manwl dros haf a hydref 2017, gan ganfasio dros 700 o dai. Trodd y data a gasglwyd yn llyfr oedd yn dogfennu'n fanwl air am air obeithion, ofnau a breuddwydion y gymuned a ddatblygwyd wedyn yn berfformiad ac opera. Mae'r fenter hon yn datblygu yn "gelfyddyd ai am air" newydd, heb ei hidlo na'i olygu.

Mae corws o leisiau o'r gymuned nid yn unig wedi gwreiddio yn y broses hon, ond mae'r lleisiau hyn hefyd yn sylfaenol i'r gelfyddyd. Yr oedd hyn yn ffordd newydd, fywiog a gwahanol o obeithion ac ofnau cymaint o drigolion Maendy, oedd yn llwyr oresgyn modelau treuliedig ymgynghori â'r gymuned sifig. Aeth trigolion lleol oedd yn gweithio gydag artistiaid ymlaen i ddatblygu digwyddiad cymunedol i ystyried canfyddiadau'r gwaith hwn, a gododd gymaint o gwestiynau am amrywiaeth o faterion a phryderon y dydd.

Mae agweddau hwyliog, cyfeillgar ac anffurfiol at ymwneud fel hyn yn dangos manteision ychwanegol celfyddyd, i arloesi gyda ffordd newydd sy'n ymateb i lefydd ac yn rhoi gwerth ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud. Gall y weithred syml o wrando rymuso, ac y mae 'Nonsensws' yn derbyn deialog wyneb-yn-wyneb mewn dull doniol a dadlennol. Mae'r pontio a'r asio cyfalaf cymdeithasol a ddeilliodd o'r gwahanol weithiau hyn wedi helpu i greu hunaniaethau newydd yn ogystal â chynrychioliadau'r lle a gynhyrchir gan y sawl sy'n byw yno, yn hytrach na phobl o'r tu allan.

Gosod lle fel cynhwysiant cymdeithasol ...

Yn hyn o beth, yr oedd SPLL yn wastad yn meddwl am gefnogi lle i fod yn "fersiwn orau ohono'i hun" ac osgoi'r agwedd o gael pecyn cymorth ac atebion sydyn sy'n amlwg wrth gyflwyno Gosod Lle proffesiynol, sydd yn aml yn seiliedig ar arsylwi arwynebol a heb unrhyw wir ddilysrwydd, rheolaeth nac ymwneud cymunedau.

“Gwers a ddysgwyd o brosiectau adfywio oedd y gall y cyllidwr ymddangos yn hael gyda’i arian, ond yn rhy aml o lawer mae eisiau gwneud pethau fel: gwthio llefydd i fyny; gwneud iddynt ddefnyddio set arbennig o ddylunwyr trefol neu ddod o hyd i rywbeth unigryw – er y gall hyn fod yn wrth-ddweud Mae gofod yn bwysig ac yr oedd holl brosiect Finding Maendy yn fater o hwyluso sgwrs a barn ehangach [arfer derbyn a gallu i ymddiried] a arweiniodd at gynhyrchu llawer o ddeunyddiau [lluniau, cyfweiriadau Nonsensws, tapestria mwy] ac un newid ffisegol yn unig [i Lyfrgell Maendy] a fyddai’n gydnaws â’r ymdeimlad normal o adfywio. Yr oedd y newid ffisegol hwn yn broses a drafodwyd trwy ddeall yr hyn oedd eisoes yn werthfawr i bobl [tynnu] a’r hyn yr oeddent yn barod i ymchwilio iddo at y dyfodol [gwthio].”

Aled Singleton, cyn-Reolwr Prosiect Finding Maendy- yn ei erthygl mewn blog Push and Pull of Place <https://www.-maindee.org/blog/the-push-and-pull-of-place>

Symud y tu hwnt i ddiwylliant cystadleuol o osod llefydd mewn trefn blaenoriaeth ...


Yn hyn o beth, mae gwaith Menter Gydweithredol yr Economi Sylfaenol ar y dull o fyw sylfaenol <https://foundationaleconomy.com/> yn arbennig o berthnasol o ran rhoi’r diwedd ar osod llefydd mewn trefn blaenoriaeth: yng ngeiriau’r **Athro Karel Williams**, “*Rhaid i ni roi y tu ôl i ni y gwahaniaeth deul o lefydd llwyddiannus ac aflwyddiannus - sy’n cael eu categorio fel llefydd a adewir ar ôl*” (Sgwrs ‘Foundational Liveability: A new approach to making places work better’ a roddir yn Rhwydwaith Ymarferwyr Adfywio Cymru, Caerdydd 27 Awst 2019).

Mae hyn wedi tanio obsesiwn â darganfod yr USP lleol, darganfod marcwyr arwynebol o wahaniaeth a defnyddio dulliau llawn gwerth (elitaidd yn aml) o fesur... sydd yn arwain at y cwestiwn, beth sydd o’i le gyda llefydd ‘cyffredin’ neu ‘arferol’? Wrth feddwl am sut i wneud i lefydd weithio’n well, mae **Menter Gydweithredol yr Economi Sylfaenol** yn galw am “*Diwedd gosod llefydd yn eu trefn a dechrau ymyriadau penodol i lefydd mewn llefydd cyffredin ... (oherwydd)... mai llefydd fel teuluoedd anhapus Tolstoy, yn anhapus yn eu ffyrdd eu hunain ac ni ellir eu rhestru o 1-60 fel gan Demos PWC*”.

Mae pob lle yn rhyfeddol os edrychwch yn ddigon manwl ...

Yr oedd llawer o artistaid a gomisiynwyd yn SPLL yn dda iawn am ddatgelu’r brodorol a’r arferol; pethau sy’n aml yn cael eu hystyried yn gyffredin neu na sylwyd arnynt yn troi yn fannau cychwyn ymchwilio a darganfod. Ar y llaw arall, roedd modd adnabod y pethau hynny yn y tirwedd trefol a chymdeithasol oedd yn ymddangos yn anghydnaws, ond sydd wedi eu normaleiddio trwy fod yn gyfarwydd ac y gellid eu hadnabod a’u hamlygu trwy’r broses greadigol

Fel rhan o brosiect Shape My Town gan Culture Action Llandudno, ymchwiliodd yr artistaid Becca Thomas a Clare Charles i hunaniaeth dref gyda gwahanol grwpiau cymunedol



Datgelu rhwystrau cudd

Mae gan raglenni fel SPLL y grym i feithrin lle diogel ar gyfer trafodaeth agored ac ymchwilio i hunaniaeth heb gyfyngiadau arferol yr agenda adfywio prif-ffrwd. Gall hyn yn ei dro ddatgelu a herio'r rhwystrau sefydliadol, polisi a threfniadol sydd (yn fwriadol neu'n anfwriadol) yn atal meddwl a gweithredu creadigol a rhwystrau'r rhai ar lawr gwlad rhag gwneud i bethau da ddigwydd. Er y gellir cysylltu hyn yn fwy cyffredinol ag argyfwng democratiaeth a bod rhai o'r rhwystrau yn gymharol generig, mae'r rhwystrau ar lefel fwy lleol yn amrywio o le i le. Ceisiodd SPLL ymchwilio i nodweddion penodol pob lle unigol.

Mae gwneud y rhwystrau hyn yn weledol yn rhan allweddol o wneud ein sefydliadau yn addas at y diben o gyflawni eu swyddogaeth fel gweision dinasyddion. Mae hefyd yn ategu cydnabod y dinasyddion fel gweithredwyr, nid pobl sy'n derbyn yn oddefol. Mae ar sefydliadau angen rhaglenni fel SPLL i'w helpu i wella'r hyn maent yn wneud.



Trwy garedigrwydd Glenn Davidson/Artststion

1. Celfyddyd Gyfoes yn erbyn Celfyddyd Gymunedol fel mecanweithiau adfywio

Yn fwriadol neu'n anfwriadol, ystyriwyd celfyddyd gyfoes a gweithgaredd celfyddydol cymunedol i raddau helaeth yn ddwy ffurf wahanol o arfer, gyda celfyddyd gyfoes yn cael ei weld fel rhywbeth elitaidd i artistaid sy'n gweithio iddynt a throstynt eu hunain, ac sy'n arddangos eu gwaith yn awyrgylch ddethol yr oriel gyda'i muriau gwynion; ar y llaw arall gwelwyd artistaid cymunedol fel cyfryngwyr creadigol y gymuned, gyda'u hawduraeth artistig yn cael ei rannu ar y cyd gyda'r gymuned sy'n cymryd rhan, a'r broses o ymwneud yn cael blaenoriaeth dros gynhyrchu celfyddyd. A siarad yn gyffredinol, bu'r ddeuoliaeth hon flaenaf yn niwylliant cyllido a noddi'r celfyddydau ers degawdau lawer. Er, gydag 'arfer sy'n ymwneud yn gymdeithasol' yn dod yn gynyddol amlwg yng ngwaith datblygu'r celfyddydau, mae'r ffiniau caled rhwng y ddau begwn wedi dechrau cilio.

Cyfryngwyr newid...

Mae natur arbrofol ac anghonfensiynol SPLL, a'r gred ddiysgog yn rôl yr artist unigol fel cyfrwng newid, wedi erydu'r ffiniau hyn ymhellach ac wedi dechrau creu lefel o ddadl ddeallus a haenog sydd wedi amlygu cyswllt mwy bywiog, creadigol anturus ac ystyrion rhwng Celf a'r Gymuned. Mae hwn yn un sy'n buddsoddi yn drwm yn ansawdd syniadau a dyheadau unigol yr artist ac ar yr un pryd gyflwyno partneriaid yn y gymuned i strategaethau creadigol sy'n herio doethineb confensiynol yn hytrach na chadarnhau naratif cyffredin ac yn cynnig atebion hawdd i gwestiynau cymdeithasol anodd. Yn y broses hon, codwyd uchelgais ac adeiladwyd fframweithiau dychmygus sydd yn mynd y tu hwnt i ddelweddau syml llawer o gelfyddyd cymunedol sydd wedi tra-arglwyddiaethu i raddau helaeth ar ddylanwad a chyfraniad artistig i feysydd adfywio, datblygu lleol a'r hyn a elwir yn Osod Lle

Arfer sy'n Ymwneud yn Gymdeithasol — dim ond genre newydd?

Yn hytrach na dod yn rhan ufudd o ddiwylliant adfywio prif-ffrwd, gosododd SPLL yr artistaid a gomisiynwyd ganddynt fel cyfryngwyr caled newid, nid gweision meddal gwneud cymunedau yn fwy uchel-ael; yng ngeiriau Stephen Prichard, celfyddyd yn dod yn "... ddewis erfyn grym meddal ein cenedl". Nid yw'n fater o dynnu sylw oddi wrth realiti neu wneud i bobl deimlo'n well am eu bywyd gwael. Gall artistiaid fod yn gatalyddion buddiol newid am nad ydynt yn rhan o drefn gonfensiynol pethau. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig cwestiynau a deall yn iawn symbyliadau trefn gonfensiynol pethau. Nid yw'r symudiad tuag at arfer celfyddydau sy'n 'ymwneud yn gymdeithasol' yn wastad yn gweithio er budd adfywio cymdeithasol neu gymunedau lleol cymunedau - a gall fod er ei fudd ei hun fel unrhyw beth arall.

ASTUDIAETH ACHOS II: Taith drofaus ond oleuedig ar y Ffordd Frics Felen

<https://arts-and-minds.squarespace.com/yellow-brick-road>


Yn dilyn galwad i artistaid "sy'n deall cyfyngiadau gweithio yn y maes cyhoeddus, ond sydd yn mwynhau'r cyhoeddusrwydd 'democrataidd' aroddir gan y cyd-destun heriol hwn, ac a all gynnig atebion dychmygus i helpu i drawsnewid yr amgylchedd adeiledig mewn ffyrdd sydd yn goresgyn llawer o'r modelau treuliedig o gelfyddyd ac ymwneud a welwn o'n cwmpas yn llawer o'r gofodau trefol heddiw", penodwyd Glenn Davidson o Artstation yn artist preswyl ar ran prosiect Arts+Minds SPLL yng Nghwrt St. Georges, Tredegar: blociau o fflatiau yn yr arddull ymosodol ar ymyl y dref gyda chyfran helaeth o lety ar rent, wedi'u gweinyddu gan landlord cymdeithasol, Tai Cymunedol Tai Calon.



Gan gyfeirio at y troedffyrdd uchel o'r 60au sy'n cysylltu'r stad, tynnodd yr artist ar symbolaeth y Ffordd Bric Melyn o'r 'Wizard of Oz' fel enw ar ei breswyliaeth wreiddiedig gyda'r trigolion; taith greadigol ymddrin â realaeth gymdeithasol anodd, rhith o hollbresenoldeb cyrff statudol ac anstatudol sydd yn barnu cyflwr iechyd a lles bywydau'r trigolion.

Yn dilyn trafod, argyhoeddodd cydlynnydd y prosiect Tai Calon - ylandlord cymdeithasol mwyaf ym Mlaenau Gwent - i ddarparu fflat gwag ar y stad. Daeth y fflat hwn yn ofod deialogaidd i'r artist a'i amrywiaeth o gymdeithion creadigol i hwyluso sgwrs yn y gymuned, cyfarfodydd y tîm dylunio amgylcheddol (gyda'r trigolion yn ganolog i'r broses hon), cyfarfodydd gyda chyrrff y trydydd sector, cynghorwyr a gweision sifil Llywodraeth Cymru, ac yn bwysicaf oll, cymhorthfa ar y safle i'r trigolion fynegi eu pryderon a'u dyheadau am eu cartrefi a'r gofod o'u cwmpas.

Yn fyr, daeth 'Celf' Davidson yn drafodaeth greadigol am werthoedd y 'contract cymdeithasol', gyda'r artist yn defnyddio ymyriadau creadigol oedd yn ymddrin â phroblemau sylfaenol dieithrio a diffyg cyfryngu a brofwyd gan y trigolion. Ymgais oedd y strategaeth artistig hon i ailgyfeirio rhaglenni gwella amgylcheddol prif-ffrwd tuag at werthoedd y model adfywio cymdeithasol, yn hytrach na'r ffisegol. Nid yw'n syndod fod yr agwedd holistig hon oedd yn canoli ar y gymuned wedi arwain at gryn wrthwynebiad gan weithwyr proffesiynol y timau dylunio; ymddengys nad oeddent wedi arfer â dulliau adfyfyriol o weithio. Ond fe lwyddodd i sbarduno aelodau'r gymuned.



O ganlyniad uniongyrchol i waith yr artist, ffurfiwyd cymdeithas trigolion newydd sydd yn awr yn cwrrdd yn rheolaidd yn neuadd yr eglwys, lle oedd wrth galon y stad ond a oedd wedi ei hanwybyddu i raddau helaeth gan y trigolion fel lle cymunedol nes i'r artist ddatblygu cyfres o ddulliau creadigol o ail-godi cysylltiadau gyda'r ficer lleol a'i staff cefnogi. Egin-fudiad yw cymdeithas y trigolion o hyd, ond y mae'n awr yn ymwneud yn rheolaidd a'r heddlu, cynghorwyr lleol, y landlord cymdeithasol a chyrrff cefnogi eraill. A thra'r erys cydlynnydd y prosiect i fynychu cyfarfodydd arsail pro-bono i gyfrannu arbenigedd ac olrhain gwaddol y rhaglen gelfyddydau, mae natur tymor-byr rhaglen SPLL yn golygu fod cyfle i'r artist, ac artistaid tebyg, i fod yn gyfrwng creadigol i'r broses ddatblygu cymunedol wedi ei golli neu hyd yn oed ei wastraffu.

Celfyddyd – wastad ar y tu fas?

Er hyn, parheir i gamddehongli rôl yr artist a'r comisiwn artistig neu ei gamddeall mewn cylchoedd cynllunio ac adfywio; mae yn aml yn cael ei ystyried fel y peth olaf un, yr eisin ary deisen - y gweithgaredd neu'r gwrthrych a gomisiynir (gydag arian Adran 106) sydd yn tarfu leiaf ar y broses gaffael ac nad yw'n gofyn dim o weithwyr proffesiynol y timau dylunio sydd eisoes wedi penderfynu ar y cysyniad a gosod eu llinellau coch o ran adfywio. Yn bennaf, mae'r ymylu hwn a'r diffyg sylw i waith yr artist sydd yn ymwneud yn gymdeithasol wedi arwain at gelfyddyd gonfensiynol, diogel, diddrwg-didda; celfyddyd nad yw'n gwneud dim ond iro olwynion parchusrwydd sifig a bwrdeistrefol ac yn rhoi sglein sydd yn gyfleus iawn yn cuddio unrhyw wrthdaro cymdeithasol dyfnach. Yn y broses hon, mae potensial a gwerth y celfyddydau i effeithio ar newid a'i gefnogi yn cael ei danseilio.

Nod SPLL oedd creu'r amodau lle gallai ymyriad yr artist/artistaidd unigol mewn partneriaeth ag ymgyrchwyr cymuned a thrigolion gael llawer mwy o effaith, a chredwn ei fod wedi llwyddo yn hyn o beth. Yr oedd SPLL eisiau ymchwilio a llunio sefyllfaoedd lle'r oedd yr artist ar y cyd â chymunedau a mudiadau oedd yn bartneriaid yn ymwneud yn ganolog â phob cam o'r broses adfywio a datblygu cymunedol, o ddechrau'r broses gaffael, oedd yn bwysig iawn. Yr oedd hyn yn gyfle i bobl, nid yn unig y gweithwyr adfywio proffesiynol, i fod yn rhan o'r broses o newid, nid y ddamcaniaeth. O ganlyniad, teg dweud, ar draws y 7 prosiect, fod syniadau am natur celfyddyd a'r rôl y gall yr artist chwarae yn ail-ddiffinio a lleisio egwyddorion datblygu adfywiol wedi datblygu ac aeddfedu'n sylweddol.



Fel rhan o brosiect STAMP, yn hen safle'r Cei Llechi yng Nghaernarfon, adferwyd yr hen efail fel gefail gymunedol dros dro a chanolbwynt i roi prawf ar ddefnydd o'r safle yn y dyfodol.

2. Symud yr hyn y rhown werth arno a sut i fesur gwerth

"Nid oes barn wrthrychol am ddiwylliant; ni allwn ddianc o'i grafangau"

Raymond Williams, 'Keywords: A Vocabulary of Culture and Society', 1976

Datblygu iaith newydd i fesur gwerth a newid parhaol...

Gyda'i ymrwymiad i ddatblygu ar lawr gwlad a democratiaeth ddiwylliannol, mae SPLL wedi ceisio mynd ati i hyrwyddo egwyddorion creadigrwydd, ansawdd, cyfiawnder a chynhwysiant, sydd yn gorgyffwrdd. Wrth geisio cynnig patrwm newydd o ymwneud creadigol, mae SPLL yn ymateb i'r

"... angen i greu iaith newydd i werth adfywio sy'n canoli ar y gymuned nad yw'n dibynnu'n llwyr ar eirfa gwerthoedd economaidd - yn unol â gwerthoedd deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r agenda lles a chynaliadwyedd. Mae angen i ni ddod o hyd i iaith sy'n ein galluogi i fesur newid gwirioneddol a mwy parhaol. Hunan-gyflawni? Ymdeimlad o berthyn? Gallu ymchwilio a thrafod sut y gall llefydd a chymunedau newid a datblygu? Ymdeimlad o rym?"

Barbara Castle, Ymgyrchydd Adfywio Cymunedol

Ar yr un pryd, rhaid cael llawer mwy o rymuso lleol – mae angen i bolisi fod yn seiliedig ar y profiad o gyflawni ar lefel gymunedol, a dylai hyn fwydo'n ôl i ddylanwadau ar agendau polisi ar lefelau awdurdod lleol a llywodraeth, a'u newid.

Tra bod CCC, fel llawer o gyrff cyhoeddus, wedi dewis llunio gwerthusiad swyddogol rhaglen SPLL ar fethodoleg 'damcaniaeth newid', yr oedd y tîm y tu ôl i SPLL hefyd eisiau defnyddio'r broses i ddeall yn well anawsterau mesur egin-raglenni megis SPLL a'r ffordd orau i ddal gwerth.

Th Golygodd hyn ddeialog gyson gyda phartneriaid y prosiect, y cyllidwr a'r gwerthuswr swyddogol, a gymerodd ran mewn dadleuon beirniadol iawn a sgysiau anodd. Arweiniodd hyn at ddysgu gan bawb. Cafodd y ddeialog feirniadol hon ei gwella trwy i CCC gefnogi gwaith myfyriwr PhD, Eugene Dubens, ym Mhrifysgol Abertawe, oedd yn cynnal ymchwil ar SPLL, a lleisiwyd set wahanol iawn o fetrigau. Ychwanegodd y ddadl hon ddimensiwn arall o feiriadaeth ac ymdeimlad ychwanegol o werth a mesur yng nghyd-destun prosiect o'r fath. Cododd y cwestiwn sut neu hyd yn oed os gallwn ddal ysbryd a deilliannau menter fel hyn?

Mae'r materion a'r trafodaethau a gododd yn berthnasol nid yn unig i raglenni celfyddydau ac adfywio ond maent hefyd yn datgelu'r cyfyngiadau a'r gwrth-ddweud sy'n treiddio trwy bolisi o'r lefel leol i genedlaethol oedd yn ei hanfod yn ffafrio rhai cysyniadau o werth ac ystyr dros eraill a thrwy hynny gyfyngu ar y modd y gellir gweithredu prosiectau. Mae'r normau ystadegol, mesuriadau perfformiad a thargedau gwerthusiadau rhaglen confensiynol yn fwy ideolegol na synhwyrol.

Cyfyngiadau gwerthuso i ddal gwir werth ...

Yr oedd llawer o'r gymuned SPLL yn amau a ellid asesu SPLL trwy ddefnyddio methodoleg gwerthuso confensiynol, yn enwedig gan'r amcanion, blaenoriaethau a deilliannau symud ac esblygu, yn hytrach na chael eu gosod allan yn bendant o'r cychwyn. Mae natur linellol dulliau gwerthuso yn rhagdybio fod cyfraniadau yn arwain at allbynnau, a bod allbynnau yn arwain at ddeilliannau, yn amhriodol mewn amgylchedd o'r fath. Beirniadaeth arall o ddamcaniaeth agwedd o newid yw y gallai prosiectau gael eu peryglu, gan gyfyngu ar gwmpas a natur arbrolfol y daith greadigol.

Oblygiad 'damcaniaeth newid' yw bod modd mesur newid; fodd bynnag, gellir dadlau a all y broses hon gyfleu syniad natur symudol pobl a llefydd. Mae llefydd yn cael eu ffurfio gan we gymhleth o gysylltiadau - diwylliannol, ecolegol, cymdeithasol, ffisegol, economaidd, etc. Mae gofod cymdeithasol yn cael ei gynhyrchu gan berthynas (gofod berthynol) ac nid yw'n hawdd diffinio na mesur llawer o'r rhain. Mae ysgrifenywyr o Gymru megis Raymond Williams wedi ymchwilio'n fanwl i hunaniaeth lle fel rhywbeth a gynhyrchir gan y berthynas sy'n eu ffurfio. Nid yw'r set hon o gysylltiadau yn digwydd dan amodau rheoledig labordy lle gellir pennu achos ac effaith, ond dan amodau blêr lle nad oes modd bod mor glinigol fanwl. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol yn aml yn mynd y tu hwnt i'r hyn a gynlluniwyd.

Cyfyd hyn y cwestiwn: a ydym yn ceisio mesur y pethau anghywir? Ac os felly, a yw hynny'n golygu ein bod yn methu gwneud gwir werth a diben yn weledol (yn ein mesuriadau ac felly yn ein hasesu a chynllunio at y dyfodol)? Yr oedd elfen hanfodol o SPLL yn canoli ar gyfrwng cymunedau a rhwydweithiau. Ni all monitro a gwerthuso confensiynol fesur cyfryngu fel hyn sydd wedi ei ymgorffori mewn strwythurau cymdeithasol mor ddiflanedig. Nid oes modd dweud sut na phryd y bydd y 'cyfryngu' hwn yn ymddangos ac yn cael effaith.

Gweithiodd yr artist Rabab Ghazoul gyda thîm o bobl ifanc fel 'ymgyngorwyr cymuned' yn ardal Penygraig fel rhan o'r Prosiect Placard



Mantais rhaglen SPLL oedd nad oedd yn ofni ymdrin â'r cwestiwn athronyddol hwn, a thrwy wneud hynny, cyfoethogwyd ansawdd y disgwrs a gwrthdroi damcaniaeth 'enillion cyflym' ac atebion 'troi'r allwedd', na wnaeth lawer i liniaru dieithrio a hyrwyddo cyfryngu cymunedol yn y tymor hwy.

Y tu hwnt i werthoedd a delweddau economaidd — deall y profiad o fyw..

Yn y cyd-destun hwn, mae SPLL wedi cadarnhau'r farn bod yn rhaid cael ffyrdd gwell o ddeall gwerth diwylliant, ac yn wir werth mentrau adfywio, y tu hwnt i bwysigrwydd economaidd. Mae angen dybryd i i adfywio ein dealltwriaeth o werth diwylliannol, y tu hwnt i gyfyngiadau niferoedd a mesurau economaidd, i ddeall yn well lle mae gwerth. Yn gwerthoedd hyn, y tu hwnt i rai economaidd, sy'n disgrifio'r berthynas a gynhrychir ar lawr gwlad gan waith celf arloesol ac arbrofol.

Daeth yr astudiaeth PhD ^{casgliad} i'r casgliad fod y sylwadau hyn yn aml yn fwy buddiol, dibynadwy a dilys nag unrhyw ffynhonnell data arall pan ddaw'n fater o asesu achosion penodol o effeithiolrwydd arfer celfyddydol. Mae'r agwedd hon wedi canoli ar brofiad uniongyrchol o fyw, sydd yn fwy cydnaws ag astudiaeth anthropolegol. Mae'n rhoi gwerth ar gysylltiadau emosiynol sydd mor hanfodol i ddeall yr effaith ar fywydau pobl, sydd mewn gwirionedd yn dadrewi emosiynau. Rhaid i ni ofyn i ni'n hunain ... sut beth yw llwyddiant? Os oes un peth wedi disgleirio'n glir yn ystod taith ryfeddol SPLL, y ffaith yw na ellir rhagweld na diffinio digwyddiadau diwylliannol. Yn hytrach, mae'r hyn sy'n 'digwydd' yn aml yn synnu ac yn mynd y tu hwnt i'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Ac yn niffyg 'map' a ddiffiniwyd yn glir - a oedd yn wastad yn un o ofynion SPLL - os na fyddwn yn olrhain y daith ddaw i'r amlwg, yna rydym yn colli'r pwynt.



Llun gan Clemetine Schneidermann fel rhan o'i phreswyliaeth ffotograffiaeth ym mhrosiect Arts and Minds ym Mlaenau Gwent. Yr oedd rhan o'i phreswyliaeth yn golygu gweithio gyda grŵp o ferched lleol a'r steilydd lleol, Charlotte James i dynnu lluniau ffasiwn byrfyfyr.

Rhai arsylwadau ac argymhellion allweddol i helpu'r broses

Ers 2015 pan gychwynnodd SPLL, mae'r byd eisoes yn wahanol iawn. Fodd bynnag mae'r themâu a nodwyd uchod yn tynnu sylw at y ffaith fod mentrau fel SPLL yn ffwy pwysig ac angenrheidiol nac erioed. Gyda sbardunau confensiynol cymdeithas yn cael eu colli a chymaint o ansicrwydd ar y gorwel, mae angen brys i ni ail-ddyfeisio'r sbardunau a'r hyn sy'n asio cymdeithas sifig ...creu 'cymunedau pwrpas o'r newydd'.

Prosiect peilot cymharol fyrhoedlog yw SPLL, ac y mae newid diwylliannol o'r maint sydd ei angen i ail-lunio egwyddorion diwylliant adfywio sydd mor wreiddiedig yn dasg enfawr. Yn hyn o beth, rhaid edrych ar 'arbrwf' SPLL fel cam cyntaf taith faith a blinderus; a heb adeiladu gallu ac ymrwymiad ariannol i fwrw ymlaen â'r rhaglen radical hon, credwn y bydd eiddylanwada'i allu i adeiladu ar lwyddiannau yn cael ei weld, o edrych yn ôl, fel arferiad didwyll ond di-rym yn y pen draw mewn datblygu cymunedol ymylol. Yn hyn o beth, rhaid gwreiddio'r gwersi o SPLL yn fframwaith athronyddol strategaeth 'Celfyddyd i Bawb' CCC a dod yn ganolog i ethos egwyddorion cyllid y Loteri.

Ymysg rhai arsylwadau ac argymhellion allweddol mae:

Diwylliant rhanddeiliaid

Seiliwyd rhan bwysig o SPLL ar naws y partneriaethau a ddygwyd ynghyd, naill ai fel hwylustod (i ddenu cyllid) neu oherwydd gwir awydd i wahanol fudiadau weithio gyda'i gilydd. Cymysgu diwylliannau gwahanol iawn sefydliadau sydd wedi creu cyfleoedd ar gyfer gwahanol ffyrdd o weithio a lle gallai'r awydd creadigol ddechrau dylanwadu ar feddylfryd uniongred prif-ffrwd. Yn amlwg, gweithiodd hyn i raddau mwy neu lai, yn dibynnu pa mor 'wreiddiedig' yr oedd prosiect SPLL yn y mudiad (heb fod yn un celfyddydol) oedd yn ei gynnal.

Yn hyn o beth mae'n wrth-gynhyrchiol gwireddu'r prosiect mewn mudiad sydd 'dan y radar'. Mewn geiriau eraill, rhaid i'r prif weithredwr/uwch-reolwyr berchenogi'r prosiect o'r cychwyn cyntaf – a thrwy gydol y prosiect. Fel arall, gallai'r gweithwyr sy'n is i lawr y gadwyn golli diddordeb, ddilorni neu anwybyddu'r broses yn niffyg arweiniad, ymrwymiad a symbyliad gan y cyfarwyddwr. Heb y gefnogaeth hon, efallai mai mynd trwy'r mosiwn yn unig wnaiff y mudiad, heb wir wreiddio dysgu na derbyn ysbryd y newid diwylliannol a arweinir gan y celfyddydau oedd yn amod derbyn arian cyhoeddus yn y lle cyntaf.

Methiant fel rhan o'r broses ddysgu

Rhaid i ni fod yn well am ddysgu gwersi o anawsterau a methiannau a symud y tu hwnt i ddiwylliant o arfer da a 'storïau newyddion da'. Mae'r gwersi gwirioneddol yn aml yn y frwydr ei hun. Mae hyn yn cysylltu â chreu diwylliant gwaith o ymddiried a gonestrwydd a hefyd yn y ffordd y dewiswn fesur a gwerthuso. Mae hefyd yn dibynnu ar arweinyddiaeth ac ymrwymiad o du'r cyllidwr i dderbyn y diwylliant hwn.

Yn amlwg, dyma lle'r oedd SPLL yn gweithredu cystal, yn wahanol i lawer rhaglen arall a allai ymddangos yn debyg ar yr wyneb. Oherwydd bod cefnogaeth foisol o du'r trefnwyr i ganiatau i brosiectau esblygu heb fod dan ormes y glasbrint cyffredinol, gallai gweithgaredd ymateb yn well i rythmau a gwirioneddau empeiraidd amgylcheddau'r cymunedau lle digwyddodd y 'gwreiddio'. Ar ei orau, creodd hyn berthynas fwy synergidd rhwng yr artistaid 'allanol' a chymunedau'r trigolion.

Amser i anadlu ac ymglyfarwyddo

Unwaith eto, dangosodd SPLL fod cyfnod esgor hir, yn enwedig mewn perthynas ag adeiladu perthynas ystyrion o'r cychwyn gyda phartneriaid anghyfarwydd yn hanfodol os yw'r bartneriaeth am fod yn gadarn, cynaliadwy y gellid dibynnu arni. Yn hyn o beth, mae'n bwysig 'blaen-lwytho' y prosiect a buddsoddi adnoddau ac amser cyn ceisio cynhyrchu unrhyw ddeilliannau diriaethol neu haniaethol. Ac felly mae celfyddyd sgwrsio yn hytrach na chelfyddyd cynhyrchu yn chwarae rhan hanfodol a sylfaenol i ennill meddyliau a chalonnau.

Pwysigrwydd parhad

Yr oedd llawer o fudiadau consortiwm yn mynd trwy gyfnod o ail-strwythuro a newid yn ystod oes y prosiect a chafodd hyn effaith andwyol ar y prosiectau - naill ai oherwydd newidiadau staff neu newid ym mlaenoriaethau'r mudiad. Er enghraifft, newidiodd un gymdeithas dai ei phrif swyddog deirgwaith. Mewn rhaglen oedd yn canolbwyntio gymaint ar adeiladu perthynas, codi ymwybyddiaeth a dysgu, mae newid personél fel hyn yn rhwystr mawr i ddatblygu'r prosiect, ei sefydlogrwydd a'i bwmpas. Mae angen mecanweithiau i sicrhau bod gwybodaeth a phrofiad yn cael eu trosglwyddo'n ddiwriad o un dref i'r llall, fel na fydd angen ail-ddyfeisio'r olwyn dro ar ôl tro, a cholli gwersi pwysig. Hefyd, rhaid i ni fod yn well am rannu a dysgu'r gwersi (o lwyddiannau, methiannau, anawsterau ac atebion) mewn sefydliadau.

Cyfrwng a phwysigrwydd gwir arweinyddion cymunedol a mudiadau cymunedol arweiniol megis cymdeithasau/fforymau trigolion lleol

Mewn gwirionedd, all prosiectau fel SPLL fyth ymdrin â'r materion strwythurol sy'n cael effaith ar fywydau beunyddiol aelodau'r gymuned. Fodd bynnag osyw rhaglen gelfyddydau am gael unrhyw effaith tymor-hir ar gymunedau penodol, yna mae'n bwysig eu bod yn gweithio trwy fforymau lleol through (ac o bosib eu helpu i ddatblygu os nad ydynt yn bodoli), am eu bod yn fforymau grymus sy'n caniatáu i drigolion ymwneud â'u cynghorwyr, darparwyr gwasanaeth, yr heddlu a mudiadau eraill y trydydd sector yn rheolaidd. Osyw CCC am gymunedau gredudod gan eu mudiad wir awydd i beri newid yna mae angen iddynt gryfhau'r rhaglen drochi gydag ymrwymiad cyllido tymor hwy sy'n adeiladu ar unrhyw waith da a wnaed. Mae cymaint o weithgaredd celfyddydol yn cael ei weld, am reswm da, fel cymorth gwerth chwil, heb ymrwymiad sylfaenol ar ran y cyllidwyr i ymdrin â'r diffygion strwythurol tymor hir sydd yn sicrhau wrth galon y paradocs adfywio.

Angen am sgiliau, swyddogaethau a dealltwriaeth newydd yn sector y celfyddydau

Bu lefel y dysgu a'r magu sgiliau proffesiynol sy'n rhan o SPLL yn eithriadol, ac mewn llawer ffordd yr oedd yn datgelu rhai o'r gwendidau a'r bylchau yn y sector celfyddydau yng Nghymru. Yn particular, amlygodd yr angen am rolau hybrid newydd sy'n croesi'r sectorau celfyddyd a llawer eraill: math mwy soffistigedig o gynhyrchydd curadol /creadigol allweithio'n effeithiol a strategol mewn amgylcheddau gwahanol. Nid yw mudiadau celfyddyd cymunedol o raid yn bartneriaid naturiol i'r math hwn o raglen sy'n seiliedig ar y gymuned, ac efallai na fyddant yn dod â'r ddealltwriaeth a'r arbenigedd curadu. Ymddengys bod llawer yn cael eu gyrru gan fodelau cyfranogol mwy therapiwtig yn hytrach nag awydd i ddatblygu cyfrwng cymunedau i beri newid cymdeithasol a gwleidyddol. Mae tuedd hefyd at feddylfryd 'penolau ar seddi', neu mewn geiriau eraill, gwerthuso ac atebolrwydd yn ôl rhifau. Yn hyn o beth, gall y pwyslais ar y 'broses' israddio ystyriaethau esthetig neu syniadau am ansawdd. Mae gan CCC rôl ddylanwadol yma gan y buasem yn dadlau fod eu cyfres bresennol o fetrigau yn caniatáu - hyd yn oed yn annog - arferion drwg i barhau.

Ehangu 'effaith yr ymyl'

Mae potensial enfawr i rannu gwersi a methodolegau allweddol a ddatblygwyd yn ehangach ledled Cymru trwy barhau i ehangu 'effaith yr ymyl' - gan ddwyn sector y celfyddydau ynghyd gyda sectorau a buddiannau eraill. Gallai hyn fod trwy hyfforddiant wedi ei dargedu, er enghraifft, i dimau cymuned mewn cymdeithasau tai neu i dimau cynllunio/adfywio mewn awdurdodau lleol a thrwy ddigwyddiadau/gweithdai megis y rhai rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Thai Cymunedol Cymru. Felygwelodd Steve Phillips o'i brofiad o weithio mewn dwy gymdeithas dai oedd yn ymwneud a dau brosiect SPLL, mae angen mwy o hyfforddi a datblygu staff mewn technegau ymwneud a deall prosesau ailadroddol. Mae'n nodi anwybodaeth sylfaenol ymysg landlordiaid cymdeithasol mewn perthynas ag ehangu datblygu a chyflwyno gwasanaethau, seiliedig ar arferion cydweithredol a heriau gweithio gyda phartner cymuned sydd â'r wybodaeth iawn ac ymwneud beirniadol.

Cyfnewidiadau cilyddol a rheolaidd

Yr oedd pwysigrwydd rhannu diddordebau, llwyddiannau a methiannau cyffredin ymysg prosiectau cydweithredol yn gadarnhaol ac yn heriol; felly hefyd y ffaith fod y rhain wedi eu trefnu yn gymharol anffurfiol ac yn fyrfyfyr: nid oeddent felly yn rhagnodol ond yn medru ymateb yn fwy uniongyrchol gyda manylion rhythmau a naws pob prosiect. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig nad yw'r fforymau hyn yn dod yn barthau cysur a siopau siarad ymysg artistiaid a churadwyr o'r un tueddfryd ond sydd yn cynnwys pobl allweddol o blith y rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â'r celfyddydau. Heb yr ymwneud hwnnw, a'r rheidrwydd i rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â'r celfyddydau wreiddio yn y broses, bydd rôl celfyddyd mewn gofod sifig yn parhau i gael ei weld fel rhywbeth addurnol, gyda llaw y gellir ei wared, ac o'r herwydd, yn rhywbeth na fydd o wir werth ym myd cynyddol gorfforaethol adfywio cymunedol prif-ffrwd.

Prosiect Trebanog. Artist arweiniol: Owen Griffiths



Adolygiad ac adfyfrio annibynnol yw hwn gan Ruth Essex a Chris Coppock a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Hydref 2019

Am fwy o wybodaeth am Syniadau Pobl Llefydd ewch at:

<https://arts.wales/our-impact/how-we-reach-wider-audiences/ideas-people-places>

Mae **Ruth Essex** yn ddatblygydd diwylliannol, ymgynghorydd ac artist oedd yn Rheolwraig Rhaglen Allanol i Syniadau Pobl Llefydd.

Cyswllt: ruthessex@gmail.com

Mae **Chris Coppock** yn guradur celfyddyd gyfoes, ymgynghorydd ac ymgyrchydd a weithiodd fel Arweinydd Creadigol i Arts+- Minds, prosiect Syniadau Pobl Llefydd seiliedig ym Mlaenau Gwent.

Cyswllt: chriscoppock@btinternet.com